Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad AHGTAEF ar Blismona Cam-drin Plant yn Rhywiol Ar-lein a Rheoli Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (Ebrill 2026)**

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Rwy'n cefnogi argymhellion sy'n ceisio adolygiad o brosesau ac arferion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein a rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig er mwyn sicrhau bod yr Heddlu'n cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau lleol.

Amlinellir naw argymhelliad ar gyfer Prif Gwnstabliaid yn yr adroddiad hwn, ac yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran gweithredu'r newidiadau sydd angen.

Mae'n dda gennyf ddweud bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn Heddlu Dyfed-Powys i gyflawni'r argymhellion hyn. Byddant yn cael eu gweithredu'n llawn gan y Grŵp Cyflenwi Trais yn Erbyn Menywod a Merched, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.

Nodaf isod fy syniadau a sicrwydd rwyf wedi derbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r adroddiad.

## Ymchwilio i gam-drin plant yn rhywiol ar-lein

***Argymhelliad 1***

**Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd:**

A. **Adolygu arferion presennol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n defnyddio offeryn asesu risg rhyngrwyd Caint a'r offeryn blaenoriaethu er mwyn blaenoriaethu cyfeiriadau ar gyfer pob drwgdybyn, yn blentyn neu'n oedolyn;**
B. **Adolygu eu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod asesiad rheolaidd o gudd-wybodaeth a risg ar gyfer drwgdybiedigion camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, cyn gorfodi a drwy gydol cylch bywyd yr ymchwiliad; a**
C. **Sicrhau bod ymchwiliadau a bennir tu allan i dimoedd camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein yn parhau dan oruchwyliaeth rheolwyr y tîm, gan gynnwys polisi dwysáu canolog.**

Rwyf wedi cael gwybod bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cynnwys ac yn parhau i ddefnyddio Offeryn Asesu Risg Rhyngrwyd Caint i flaenoriaethu cyfeiriadau ar gyfer pob drwgdybyn, yn blentyn neu'n oedolyn, a dderbynnir gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol mewn perthynas ag ymddygiadau

ar-lein. Mae ail elfen a thrydedd elfen yr argymhelliad hwn dal yn mynd rhagddynt drwy'r Grŵp Cyflenwi Trais yn Erbyn Menywod a Merched y sonnir amdano uchod.

***Argymhelliad 2***

> **Ch. Erbyn 30 Ebrill 2027, dylai heddluoedd adolygu lefelau staffio presennol mewn timoedd camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein er mwyn sicrhau bod digon o swyddogion a staff gyda nhw i reoli galw'n effeithiol a sicrhau y gellid ymdopi â llwythi gwaith.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cynghori bod yr argymhelliad hwn wedi'i ddogfennu, a bydd yn hysbysu Cylchoedd Cynllunio Strategol a Sicrwydd yn y dyfodol, gan gydnabod effaith cynnydd esbonyddol o flwyddyn i flwyddyn mewn cyfeiriadau i Dîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu.

***Argymhelliad 4***

**Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd:**

> **D. Adolygu eu gweithdrefnau cam-drin plant yn rhywiol ar-lein a sicrhau yr ystyrir a chofnodir arestio a mechnïaeth ar gyfer pob drwgdybyn; a**
>
> **Dd. Sicrhau bod amodau'n cael eu gwirio'n rhagweithiol o leiaf unwaith bob cyfnod mechnïaeth perthnasol pan mae drwgdybiedigion cam-drin plant yn rhywiol ar-lein ar fechnïaeth.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn craffu ar bob defnydd o bresenoldeb gwirfoddol, mechnïaeth a mechnïaeth fynych. Ymhellach i hyn, bydd gwaith yn parhau i sicrhau'r defnydd o Ryddhau Dan Ymchwiliad mewn amgylchiadau eithriadol mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Yn ogystal, mae'r Panel Gorchymyn Risg Rhywiol, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn asesu addasrwydd gorchmynion sifil dros dro i alluogi rheolaeth effeithiol o ddrwgdybiedigion.

***Argymhelliad 5***

> **E. Erbyn 30 Ebrill 2027, dylai heddluoedd sicrhau bod darpariaeth trydydd parti mewn grym i gefnogi teuluoedd drwgdybiedigion cam-drin plant yn rhywiol ar-lein a bod taflenni â manylion cyswllt sefydliadau cymorth ar gael.**

Mae'n dda gennyf glywed bod Heddlu Dyfed-Powys wedi sicrhau eu bod nhw'n cynnig darpariaethau trydydd parti ar gyfer drwgdybiedigion a'u teuluoedd, ac yn eu cyfeirio atynt fel mater o drefn. Mae hyn wedi'i gynnwys yng ngweithdrefn gweithredu safonol Tîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu.

## Rheoli troseddwyr

***Argymhelliad 6***

**Erbyn 30 Hydref 2026, dylai heddluoedd:**

**F. Adolygu eu modelau gweithredu a fframweithiau llywodraethu er mwyn sicrhau bod ganddynt ymagwedd gyson tuag at reoli troseddwyr rhyw cofrestredig ar draws pob tîm, gan gynnwys y defnydd o'r Gofrestr Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar yn unol â safonau'r Swyddfa Gartref; ac**

**Ff. Adolygu'r data maen nhw'n casglu, sut maen nhw'n ei gasglu a sut maen nhw'n ei gyflwyno, a sicrhau ei fod yn cynrychioli'r hyn sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar i asesu'n gywir a rheoli'r perygl a gyflwynir gan droseddwyr rhyw cofrestredig.**

Mae strwythurau llywodraethu presennol a fframweithiau archwilio wedi'u datblygu gan Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at reoli troseddwyr rhyw yn ardal Dyfed-Powys.

Rwyf wedi cael gwybod bod Grŵp Bygythiadau Uned Rheoli Troseddwyr Heddlu Dyfed-Powys, Grŵp Gweithredol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, a Bwrdd Rheolaeth Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn galluogi goruchwyliaeth a chraffu o reolaeth effeithiol o droseddwyr rhyw cofrestredig. Y fframweithiau llywodraethu hyn yw lle yr adroddir ar ddata allweddol sy'n ymwneud â chanllawiau Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref.

***Argymhelliad 8***

**Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd:**

**G. Defnyddio tueddiadau galw blaenorol ac adolygu galw a ragwelir ar gyfer rheoli timoedd troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar am bum mlynedd i sicrhau bod digon o oruchwylwyr a rheolwyr troseddwyr gyda nhw i reoli hyn;**

**Ng. Sicrhau bod timoedd troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar ar ddyletswyddau eraill yn cael eu cofnodi a'u hadolygu, ac nad ydynt yn digwydd yn rheolaidd nac yn cael effaith negyddol ar gwblhau llwyth gwaith;**

**H. Sicrhau bod gan reolwyr timoedd troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar niferoedd hydrin o asesiadau systemau rheoli risg sy'n aros, cynlluniau rheoli risg ac ymweliadau a bod y rhain yn cael eu hasesu gan lefel risg ac ers pa bryd maen nhw wedi bod yn aros; a**

**I. Sicrhau bod goruchwylwyr yn cwblhau adolygiadau o asesiadau systemau rheoli risg gweithredol, cynlluniau rheoli ac ymweliadau yn brydlon ac o fewn mis.**

Rwyf wedi cael gwybod bod yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried mewn Cylchoedd Cynllunio Strategol a Sicrwydd ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn y dyfodol. Mae'r strwythurau llywodraethu sydd ar waith ar hyn o bryd yn galluogi goruchwylio llwythi gwaith rheolwyr troseddwyr yn seiliedig ar raddau risg ac amseroldeb.

***Argymhelliad 10***

**Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd sicrhau:**

**L. Bod ymweliadau cartref yn ddirybudd ac yn cael eu cynnal mewn parau i gydymffurfio ag arferion proffesiynol awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar;**

**Ll. Bod ymweliadau sydd ddim yn cydymffurfio â'r arferion proffesiynol awdurdodedig ar gyfer rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar yn cael eu hawdurdodi, bod y rhesymeg yn cael ei chofnodi ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar, a bod system mewn grym i alluogi asesiad o'r penderfyniad;**

**M. Bod unrhyw droseddwyr rhyw cofrestredig a reolir yn ymatebol yn bodloni'r amodau a nodir yn yr arferion proffesiynol awdurdodedig ar gyfer rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar; a'u bod yn**

**N. Cynnal ac yn asesu gwiriadau Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ar droseddwyr rhyw cofrestredig.**

Rwyf wedi fy sicrhau bod yr holl bwyntiau o fewn yr argymhelliad hwn yn arfer gwreiddiedig yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae gan bob un o'r argymhellion drefniadau llywodraethu da, ac mae Heddlu Dyfed-Powys

wedi ymrwymo i sicrhau cydymffurfiaeth lawn a chyflawniad o'r argymhelliad hwn.

***Argymhelliad 15***

**Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd:**

**O. Sicrhau bod sgrinio iechyd seicolegol yn ofynnol ac yn cael ei ddarparu unwaith y flwyddyn o leiaf (yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Lles Heddlu Cenedlaethol) ar gyfer aelodau tîm a goruchwylwyr rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar a chamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, gyda mynediad at wasanaethau lles dilynol; a**

**P. Sicrhau bod goruchwylwyr tîm rheoli troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar a chamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein yn cael hyfforddiant rheolaidd a hysbysir gan drawma a gwybodaeth a rennir i nodi arwyddion trawma, chwythu plwc a materion lles eraill y gallant gyfeirio ato, a chael mynediad at gymorth amserol a thriniaeth lle mae angen.**

Dywedodd Heddlu Dyfed-Powys wrthyf fod cynlluniau hyfforddi Datblygiad Proffesiynol Parhaus 'Diogelu Pobl Fregus' a 'Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar' mewn grym. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar iechyd meddwl a lles fel themâu cylchol. Mae gweithgarwch meincnodi pellach ar waith gyda heddluoedd arweiniol yn y maes hwn i ddeall yr arfer gorau ac unrhyw fylchau yn y maes hwn.

***Argymhelliad 16***

**Ph. Erbyn 31 Hydref 2026, dylai heddluoedd sicrhau bod ganddynt gytundeb lefel gwasanaeth cryf mewn grym gyda'r Gwasanaeth Prawf a bod ganddynt broses ddwy ffordd ar gyfer adolygu, rhoi adborth a dwysáu i sicrhau nad yw cyfleoedd ar gyfer diogelu'n cael eu colli.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi fy sicrhau bod ganddynt strwythurau llywodraethu wedi ymwreiddio'n dda sy'n caniatáu adolygu, adborth a dwysáu'n effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp Gweithredol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a'r Bwrdd Rheoli Strategol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd.

Rwy'n ddiolchgar bod yr adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi ac am yr argymhellion ynddo. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys, yn ogystal â phartneriaid perthnasol eraill ar draws Cymru a Lloegr i sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu.